**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Tom Middlehurst | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| D Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

**Eitem 1:Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-04-2002(min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau newydd i'r pwyllgor, sef Christine Chapman a Tom Middlehurst ynghyd â Huw Lewis a oedd yn dychwelyd i'r pwyllgor.

2.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd wedi gadael, Brian Gibbons, Peter Law ac Alan Pugh am eu cyfraniadau a'u presenoldeb.

2.3 Atgoffodd y Cadeirydd aelodau newydd y Pwyllgor i hysbysu'r Clerc os gallai hwy neu eu hymchwilwyr fynychu'r seminar ar y cyd ar y broses o ddrafftio deddfau ar ddydd Mercher, 27ain Chwefror 2002.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC407- Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC407 (Adroddiad).

**LC408 – Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC408 (Adroddiad).

**LC409 – Rheoliadau Cytundebau Cymhorthdal Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr Aelodau bod un mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Nid yw'r rhagarweiniad yn cyfateb â pharagraff 2.23A yn Ymarfer yr Offeryn Statudol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r darpariaethau a nodwyd gynnwys yr holl ddarpariaethau yr oedd eu hangen i nodi'r person a awdurdodwyd i wneud yr offeryn. O ganlyniad, oherwydd nad yw adran 91 Deddf 1985 yn nodi pwy sy'n gallu gwneud y "rheoliadau", dylai troednodyn (b) nodi bod adran 137(1) yn diffinio "rheoliadau" fel rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Roedd hwn yn gyflwyniad angenrheidiol i'r cyfeiriad yn y troednodyn at y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, sy'n nodi bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Oherwydd bod hwn yn fân wall drafftio, cytunwyd y dylid ei

ddiwygio o dan OS22.13 drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn nodi y dylid cywiro'r gwall yn y dull hwn.

3.9 Daeth yr Aelodau hefyd i'r casgliad bod un sylw cyffredinol yr oeddent o'r farn y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad: hwyrach bod y cyfeiriad yn llinell olaf y nodyn esboniadol at “unrhyw” flwyddyn ariannol ychydig yn gamarweiniol.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC409 (Adroddiad).

**LC410 – Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o sylwadau cyffredinol a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC410 (Adroddiad).

**LC411 – Gorchymyn Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau cyffredinol a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.16 Atodir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC411 (Adroddiad).

**LC412 – Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru) 2002**

3.17 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.19 Atodir adroddiad y Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC412 (Adroddiad).

**LC413 – Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 2) 2002**

3.20 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag nododd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol nifer o sylwadau cyffredinol a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC413 (Adroddiad).

**LC414 – Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Marcio Cig, Paratoadau Cig a Chynhyrchion Cig) (Cymru) 2002**

3.23 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.24 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5.

- Mae Rheoliad 2(4) yn rhoi paragraff 3 yn lle paragraffau 3A a 3B yn Rhan VI Atodlen 2. Ymddengys, fodd bynnag, y dylid cyfeirio at y paragraff a amnewidiwyd fel 3A, oherwydd nad yw paragraff 3 sy'n bodoli eisoes yn cael ei ddiddymu. Yn wir, mae'r paragraff a fewnosodwyd yn cyfeirio at "baragraffau 1 i 3 isod".

3.25 Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig er mwyn i'r cywiriad angenrheidiol gael ei weithredu yn fersiwn cyhoeddedig y rheoliadau.

3.26 Daeth yr Aelodau hefyd i'r casgliad fod nifer o sylwadau cyffredinol yr oeddent o'r farn y dylid eu cofnodi yn yr adroddiad.

3.27 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC414 (Adroddiad).

**LC415 – Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.28 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.29 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor un sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.30 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC415 (Adroddiad).

**LC416 – Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002**

3.31 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.32 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.33 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC416 (Adroddiad).

**LC417 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffïoedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.34 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.35 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.36 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad fel LC417 (Adroddiad).

**Eitem 4 Unrhyw Fusnes arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Chwefror 2002.